

Anfonwyd trwy e-bost



28 Gorffennaf 2022

Annwyl Swyddog Cyfrifol,

Dynodi cymwysterau presennol mewn adeiladu a pheirianeg gwasanaethau adeiladu at ddibenion penodol o 1 Awst 2022

Efallai eich bod yn ymwybodol, y bydd y cymwysterau sy'n weddill mewn cyfres newydd o gymwysterau galwedigaethol mewn adeiladu a pheirianeg gwasanaethau adeiladu, sydd wedi'u datblygu ar gyfer dysgwyr yng Nghymru, ar gael ar 1 Awst 2022. Bydd y cymwysterau cymeradwy hyn hefyd yn rhan o fframweithiau prentisiaeth newydd yng Nghymru o'r dyddiad hwn. Mae ystod o gymwysterau ar gyfer dysgwyr mewn addysg bellach amser llawn ar gael hefyd. Mae'r ystod lawn o gymwysterau, a'r llwybrau oddi mewn iddynt, i'w gweld ar [dudalen 'Cymwysterau' gwefan Sgiliau i Gymru](#).

O 1 Awst 2022, ni fyddwn bellach yn dynodi'r cymwysterau presennol, mewn meysydd crefftau adeiladu a pheirianeg gwasanaethau adeiladu lle mae darpariaeth o fewn y gyfres newydd, i'w defnyddio mewn addysg bellach amser llawn neu ddysgu seiliedig ar waith ar gyfer dysgwyr hyd at 19 oed.

Fodd bynnag, yn unol ag is-adran 30(6) o Ddeddf Cymwysterau Cymru, mae gennym y pŵer i ddynodi cymwysterau ar gyfer dibenion penodol, gan gynnwys drwy gyfeirio at y dysgwyr y mae'r cymhwyster wedi'i anelu atynt. Gallwn hefyd nodi nad yw cymhwyster wedi'i ddynodi ar gyfer un neu fwy o ddibenion penodol. Er enghraifft, efallai y byddwn yn nodi nad yw cymhwyster wedi'i ddynodi i'w ddefnyddio mewn ysgolion a gynhelir, ond ei fod wedi'i ddynodi at bob diben arall.

Felly, gellir dynodi cymwysterau presennol, lle bo angen gan ganolfannau, ar gyfer ystod gyfyngedig o ddibenion penodol. Gall dibenion o'r fath gynnwys eu:

- Defnyddio ar raglenni astudio rhan-amser mewn sefydliad addysg bellach
- Defnyddio ar raglen 'NVQs yn y gweithle'
- Defnyddio fel rhan o raglen sydd wedi'i hanelu at ddysgwyr sy'n oedolion.

Qualifications Wales

Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222



www.qualificationswales.org

Cymwysterau Cymru

Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Yn ogystal, gellir dynodi cymwysterau NVQ fel y gellir cynnig llwybrau unigol nad ydynt wedi'u cynnwys yn y gyfres newydd o gymwysterau. Er enghraifft, gellir dynodi NVQ lefel 2 mewn plastro ar gyfer llwybr ffibrog ond nid ar gyfer llwybr plastro solet (gan fod hwn yn faes crefft a gwmpesir gan y gyfres newydd o gymwysterau).

Bydd y diben penodol y dynodir cymhwyster ar ei gyfer yn cael ei ddatgan ar QiW. Bydd y Dyddiad Dechrau Dynodi Hwyr Haf Sydd y Mwyaf Tebygol, a Dyddiad Gorffen y Dynodiad/Ardystiad sy'n berthnasol i'r diben penodol hwnnw yn ymddangos nesaf ato.

Pan fydd cyrff dyfarnu'n gofyn am ddynodi cymwysterau presennol at ddibenion o'r fath, o 1 Awst 2022 byddwn yn ei gwneud yn ofynnol iddynt lenwi'r maes 'Diben penodol' ar QiW gyda disgrifiad o'r diben(ion) penodol. Gallai hyn fod yn enw ar y llwybr(au) NVQ (na ddylai fod yn cael eu cynnwys yn y gyfres newydd o gymwysterau) neu fath o ddysgwr penodol, er enghraifft. Dylai dyddiadau gorffen dynodiad y diben penodol hefyd gael eu llenwi cyn cyflwyno'r cais drwy QiW.

Bydd canllawiau diwygiedig a llythyr ynghylch y newidiadau i QiW er mwyn hwyluso ychwanegu at ddibenion penodol yn cael eu hanfon at gyrff dyfarnu yn fuan gan y Tîm Cymeradwyo a Dynodi.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am ein dull o ddynodi cymwysterau adeiladu a pheirianeg gwasanaethau adeiladu o 1 Awst 2022, mae croeso i chi gysylltu â dean.seabrook@cymwysteraucymru.org.

Yr eiddoch yn gywir,



Dean Seabrook,

Polisi a Diwygio Cymwysterau.